

## Taliadau ar gyfer Cynllun Masnachu Allyriadau'r UE (EU ETS)

### Gosodiadau ddisymud

#### Gwneud cais am drwydded newydd

Rydych yn talu hyn pan fyddwch yn gwneud cais am drwydded a cynllun monitro **newydd**. Mae hefyd yn cwmpasu cost agor cyfrif yng nghofrestrfa'r Undeb.

Allyriadau blynyddol *	Tâl
Llai na 50 cilotunell (Kt) y flwyddyn	£1,372
O leiaf 50 kt a dim mwy na 500 Kt	£2,560
Mwy na 500 Kt y flwyddyn	£6,113

\* Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif eich allyriadau blynyddol tebygol oni bai y gallwch ddarparu ffigur allyriadau blynyddol wedi'u gwirio.

#### Amrywiad trwydded

Mae'r tâl hwn yn berthnasol pan fydd angen i ni gynnal asesiad technegol o'ch cais i amrywio'ch trwydded.

Tâl amrywio trwydded	£440
----------------------	------

Ni chodir tâl am bob math o amrywiad trwydded. Os ydym yn credu mai newid gweinyddol yn unig yw'r amrywiad, ni fydd angen ichi dalu.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi dalu tâl amrywio, gyrrwch e-bost i:

[GHGHelp@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:GHGHelp@naturalresourceswales.gov.uk)

#### Trosglwyddo trwydded

Mae'r tâl trosglwyddo yr un peth p'un a ydych yn trosglwyddo'r cyfan neu ran o'ch trwydded.

Tâl trosglwyddo trwydded	£440
--------------------------	------

Mae hyn yn daladwy gan naill ai'r trosglwyddwr neu'r trosglwyddai (ond nid y ddau)

### Ildio neu ddirymu trwydded

Mae'r tâl yr un fath os byddwch yn gwneud cais i ildio'ch trwydded neu os ydydm yn cyflwyno hysbysiad i chi ein bod yn dirymu eich trwydded. Os yr olaf, byddwn yn gyrru anfoneb atoch.

Tâl ildio neu ddirymu trwydded	£686
--------------------------------	------

### Gwneud cais am lwfansau o'r gronfa newydd-ddyfodiaid (NER)

Tâl cais NER	£1147
--------------	-------

### Gwneud cais i gynyddu eich targed allyriadau

Os ydych yn weithredwr wedi'i eithrio ac yn gwneud cais i gynyddu eich targed allyriadau ar ôl cynnydd mewn cynhwysedd, rhaid talu a fydd cost amrywio eich trwydded yn rhan o hyn.

Tâl cynnydd yn y targed allyriadau	£1147
------------------------------------	-------

Os yw'r wybodaeth a anfonwch gyda'ch cais yn anghywir neu'n anghyflawn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ffi bellach os bydd angen i ni wneud diwygiad arall i'ch targed.

### Tâl cynhaliaeth (gosodiadau ddisymud)

Mae hwn yn dâl blyneddol ac mae'n cynnwys costau:

- cynnal eich trwydded
- cynnal eich defnydd o Gofrestrfa'r Undeb
- prosesu hysbysiadau
- ymdrin â newidiadau gweinyddol neu fân amrywiadau i gynlluniau monitro
- archwiliadau cydymffurfio
- darparu desg gymorth
- gweithgareddau archwilio cydymffurfiaeth os ydych yn osodiad wedi'i eithrio

Allyriadau blynyddol	Tâl blynyddol
Llai na 50 cilotunell (Kt) y flwyddyn	£2,611
O leiaf 50 kt a dim mwy na 500 Kt	£3,400
Mwy na 500 Kt y flwyddyn	£4,178
'Safle dim allyriadau' *	£1,004

\* yn gymwys i nifer cyfyngedig o osodiadau nad ydynt yn allyrru nwyon tŷ gwyr o'r rhan honno o'r gweithgaredd a reoleiddir sy'n cael ei wneud yn y weithfa. Nid yw'n berthnasol i'r rhai sy'n adrodd dim allyriadau o ganlyniad i losgi neu ddefnyddio ffrydiau ffynhonnell biomas.

Os ydych yn ymuno â EU ETS ran o'r ffordd drwy flwyddyn, codir cyfran o'r tâl parhau i chi yn ôl nifer y dyddiau a adewir yn y flwyddyn. Bydd y cyfrifiad yn dechrau o'r dyddiad y caiff eich trwydded ei rhoi neu ei throsglwyddo.

Os byddwch yn ildio eich trwydded, neu os caiff ei dirymu, a bod hyn yn digwydd mewn rhan o'r ffordd drwy flwyddyn, byddwn yn ad-dalu cyfran o'r tâl parhau blynyddol a dalwyd gennych. Bydd y cyfrifiad yn seiliedig ar nifer y dyddiau a adewir yn y flwyddyn.

## Gweithredwyr hedfan

### Taliadau cais

Cynllun allyriadau	£768
Cynllun meincodi	£850

### Codi tâl i amrywio cynllun allyriadau hedfan

Mae'r tâl hwn yn berthnasol pan fydd angen i ni gynnal asesiad technegol o'ch cais i amrywio eich cynllun allyriadau. Mae hefyd yn gymwys fel arfer os ydym wedi cyflwyno hysbysiad amrywio i chi.

Tâl amrywio cynllun allyriadau	£440
--------------------------------	------

Ni chodir tâl am bob amrywiad yn y cynllun allyriadau. Os ydym yn credu mai newid gweinyddol yn unig yw'r amrywiad, ni fydd angen ichi dalu ffi.

Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi dalu tâl amrywio e-bostiwrch:

[GHGHelp@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:GHGHelp@naturalresourceswales.gov.uk)

### Tâl am wneud cais i'r gronfa arbennig

Mae angen i chi dalu tâl pan fyddwch cyflwyno cais am lwfansau am ddim o'r gronfa arbennig. Mae hyn hefyd yn cynnwys cost eich cais am eich cynllun meincodi.

Tâl cais i'r cronfa arbennig	£1147
------------------------------	-------

### Taliadau cynhaliath (gweithredwyr hedfan)

Tâl blynyddol yw hwn ac mae'n talu costau sy'n ymwneud â:

- eich cynnal fel gweithredydd awyrennau yn yr UE ETS
- prosesu hysbysiadau
- cynnal eich defnydd o Gofrestrfa'r Undeb
- delio â newidiadau gweinyddol neu fân amrywiadau i gynlluniau
- archwilio cydymffurfiaeth
- darparu desg gymorth a datrys materion

Mae'r tâl cynhaliath yn cynnwys dwy ran. Mae ganddi elfen tâl sefydlog a elwir yn tâl sylfaenol. Rydych yn talu hyn os ydych yn cynnal gweithgareddau hedfan ar gyfer unrhyw ran o'r flwyddyn gydymffurfio. Mae'r tâl hwn fel a ganlyn:

Amcangyfrif allyriadau blynyddol	Tâl Sylfaenol
Llai na 50 cilotunell (Kt) y flwyddyn	£1,966
O leiaf 50 kt a dim mwy na 500 Kt	£2,550
Mwy na 500 Kt y flwyddyn	£3,133

Mae angen i chi hefyd dalu tâl amrywiadwy sy'n dibynnu ar faint o amser y mae cynllun allyriadau wedi'i roi i chi yn ystod y flwyddyn gydymffurfio.

Os byddwch yn cymhwyso fel gweithredwr awyrennau yn y DU ran o'r ffordd drwy flwyddyn gydymffurfio, codir ffi 'pro-rata' arnoch yn seiliedig ar nifer y diwrnodau sy'n weddill yn y flwyddyn. Bydd y tâl yn dechrau o'r dyddiad ar eich cynllun allyriadau, nid o'r dyddiad y gwnaethoch gais am y cynllun.

O fewn unrhyw flwyddyn galendr, os caiff eich cynllun gollyngiadau ei ohirio a'i ailgychwyn eto canol blwyddyn, ni fydd y rhan amrywiol o'ch tâl yn cael ei haddasu.

Mae'r taliadau amrywiol fel a ganlyn:

<b>Amcangyfrif allyriadau blynyddol</b>	<b>Tâl Amrywiol</b>
Llai na 50 cilotunell (Kt) y flwyddyn	£645
O leiaf 50 kt a dim mwy na 500 Kt	£850
Mwy na 500 Kt y flwyddyn	£1044

[Pob gweithredydd \(disymud a hedfan\)](#)

#### **Tâl am penderfynnu allyriadau**

Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft os nad ydych yn cyflwyno eich adroddiad allyriadau blynyddol, gall Cyfoeth Naturiol Cymru codi £125 yr awr i amcangyfrif eich allyriadau blynyddol adroddadwy. Byddwn yn anfon anfoneb atoch am unrhyw gostau yr aed iddynt.

## Taliadau cofrestrfa'r Undeb

Mae cost agor cyfrif newydd gweithredwyr (OHA) neu gyfrif gweithredydd awyrennau (AOHA) wedi'i chynnwys yn y ffi gwneud cais am drwydded newydd neu gynllun allyriadau.

Agor cyfrif person sy'n dal trwydded neu gyfrif masnachu	£195
Tâl cynhaliaeth blyneddol am cyfrif person sy'n dal trwydded neu gyfrif masnachu	£389 y flwyddyn
Agor cyfrif gwiriwr	£195

Mae angen i chi dalu'r tâl cynhaliaeth flwyddyn llawn hyd yn oed os mai dim ond am ran o flwyddyn rydych chi wedi dal cyfrif.

### **Newid neu enwebu Cynrychiolwyr wedi'u Awdurdodi**

Does dim angen i Gweithredwyr sydd â Cyfrif OHA neu AOHA talu i newid Cynrychiolydd wedi'i Awdurdodi (AR) neu ychwanegol Cynrychiolydd wedi'i Awdurdodi Ychwanegol (AAR).

Os mai deiliad cyfrif arall ydych, nid ydych yn talu am y 2 AR cyntaf sydd eu hangen pan yn gwneud cais am gyfrif, ond bydd tâl o £55 yn cael ei godi am unrhyw AR neu AAR ychwanegol.

### **Llwyfannau masnachu allanol**

Gellir cysylltu llwyfannau masnachu allanol â Chofrestrfa'r Undeb er mwyn hwyluso'r gwaith o fasnachu lwfansau ac unedau Kyoto rhwng nifer o drydydd partïon.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn codi £125 yr awr i asesu ceisiadau ar gyfer cyfrifon llwyfannau masnachu allanol. Bydd cost gwaith sy'n cael ei wneud gan drydydd partïon, fel ymgynghorwyr TG, yn cael ei drosglwyddo i berchnogion y llwyfannau masnachu allanol hynny.